## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (GLANGRWYNE, POWYS) (GWAHARDD TRAFFIG DROS DRO) 2024

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40, neu gerllaw iddi, yng Nglangrwyne, i'r de-ddwyrain o Grucywel, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob traffig (cerbydau, beicwyr, cerddwyr, marchogion a da byw) rhag mynd ar hyd y darn o'r gefnffordd yng Nglangrwyne sy'n ymestyn o bwynt 100 metr i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd fynediad sy'n arwain at yr eiddo o'r enw Cydiad-y-Ddwysir hyd at bwynt 10 metr i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ymyl i Dan-y-Gollen a Martell Way.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain yw mynd ar hyd yr A40 tua'r gorllewin i Aberhonddu, yr A470 tua'r de i Ferthyr Tudful a'r A465 tua'r dwyrain i ailymuno â'r A40 yn y Fenni: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin. Bydd angen i draffig nad yw'n gerbydau aros wrth y mannau cau nes y gellir eu hebrwng neu eu cyfeirio'n ddiogel drwy'r safle gwaith.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 11 Mawrth 2024. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn weithredol dros nos (19:00 – 06:00 o'r gloch) o 11 Mawrth hyd 19 Mawrth 2024 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A40 TRUNK ROAD (GLANGRWYNEY, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF TRAFFIC) ORDER 2024

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A40 trunk road at Glangrwyney, south-east of Crickhowell, Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all traffic (vehicles, cyclists, pedestrians, equestrians and livestock) from proceeding on the length of the trunk road at Glangrwyney that extends from a point 100 metres east of the centre-point of its junction with the access road leading to the property known as Cydiad-y-Ddwysir to a point 10 metres south-east of the centre-point of its junction with the side road to Dan-y-Gollen and Martell Way.

The alternative route for eastbound traffic is via the westbound A40 to Brecon, southbound A470 to Merthyr Tydfil and eastbound A465 to rejoin the A40 at Abergavenny: vice versa for westbound traffic. Non-vehicular traffic will need to wait at the closure points until they can be safely escorted or directed through the works site.

The Order comes into force on 11 March 2024. The temporary prohibitions are expected to operate overnight (19:00 – 06:00 hours) from 11 – 19 March 2024 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to be in force during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government